

## Dosbarthu bwyd i bobl lleol Reading yn ystod Coronafeirws



“Mae coronafeirws wedi effeithio ar fywyd pawb rywffordd erbyn hyn ac am y tri mis diwethaf, rwyf wedi bod yn wirfoddolwr yn Reading yn pacio a dosbarthu parseli bwyd i bobl anghenus y dref.

Mae'r ganolfan bwyd wedi cael ei sefydlu yn Theatr yr Hexagon ynghanol y dref, ac yno bŵm yn gweithio am y tair blynedd diwethaf nes i effaith COVID-19 orfodi i ni gau'r theatr yn ôl ym mis Mawrth.

Y Cyngor lleol sydd berchen yr Hexagon ac efo maent y lle a'i leoliad ynghanol y dref mae'n le delfrydol i wasanaethu pobl y gymuned.

Mae pobl yn medru ffonio efo'i anghenion drwy y 'One Reading Community Hub', sefydlwyd rhwng y Cyngor ac elusennau lleol. Mae'r Hwb wedyn yn cysylltu efo'r theatr lle mae tim ohonom yn pacio parseli bwyd ar gyfer unigolion a theuluoedd sydd heb fodd o gael bwyd neu sydd yn hunan-ynysu

Mae pob unigolyn yn cael bocs sy'n cynnwys bwyd sych fel pasta, grawnfwyd, wŷyau, llaeth, cawl, bara ac hefyd bwyd oergell fel menyn, caws a iogwrt. Byddant hefyd yn cael bocs yn cynnwys llysiau a ffrwyth. Hefyd rhaid edrych ar ôl anghenion gwahanol pobl fel llysiuwy, bwyd halal, anghenion meddygol ac yn y blaen. Mae'r Cyngor yn talu am y bwyd ond hefyd mae nifer o gwmnïau - yn cynnwys archfarchnadoedd - wedi noddi llawer o'r bwyd. Ar ôl pacio'r bwyd mae tim o yrrwyr o'r Cyngor yn pigo'r parseli bwyd ac yna dosbarthu'r bwyd yn lleol.

Mae'r 'Hwb' wedi bod yn rhedeg am fwy na thri mis nawr ac yn barod, mae dros mil o barseli wedi cael eui dosbarthu. Er bod llai o angen arnom erbyn hyn, 'rydym yn dal i weithio bob dydd a byddwn yn parhau tra bod galwad am y gwasanaeth.”